# Ordinhad 2

# Y Cyngor: Cadeirydd y Cyngor

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 1.2 |
| **Dyddiad Adolygu Diweddaraf:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 2
# Y Cyngor: Cadeirydd y Cyngor

1. Penodi Cadeirydd y Cyngor

Pan ddaw swydd Cadeirydd y Cyngor yn wag, bydd y Cyngor yn cyfarwyddo'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu - gyda Dirprwy Ganghellor yn cadeirio yn lle Cadeirydd y Cyngor sy'n ymadael - i ymgymryd â phroses recriwtio allanol addas i nodi'r canlynol:

i. Aelod annibynnol newydd i'w benodi i'r Cyngor, ar y ddealltwriaeth y caiff yr unigolyn ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor; a/neu

ii. Gwahodd enwebiadau gyda'r bwriad o ethol unigolyn sydd eisoes yn gwasanaethu ar y Cyngor fel aelod annibynnol, gyda chyfnod yn swydd y Cadeirydd heb fod tu hwnt i ddyddiad gorffen penodiad gwreiddiol yr aelod hwnnw i'r Cyngor.

Wrth benodi i swydd wag Cadeirydd y Cyngor, bydd y Cyngor yn ystyried gallu'r Cyngor i gynnal ei waith yn Gymraeg ac yn Saesneg. Penodir Cadeirydd y Cyngor gan gyfeirio at ddisgrifiad swydd y Cadeirydd a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

2. Cyfnod y Swydd

Fel arfer, pedair blynedd bydd cyfnod swydd Cadeirydd y Cyngor. Bydd y Cadeirydd yn gymwys i gael ei ailbenodi am gyfnod pellach o bedair blynedd fel arfer, yn unol â'r ddarpariaeth a nodir yng Nghymal 12 y Siarter.

3. Swyddogaethau Cadeirydd y Cyngor:

Bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennir gan y Cyngor a fydd yn cynnwys:

i. Darparu arweinyddiaeth i'r Cyngor a chadeirio cyfarfodydd y Cyngor;

ii. Gweithredu fel Cadeirydd ex-officio ar bwyllgorau dewis i benodi'r Canghellor, y Dirprwy Gangellorion a'r Is-ganghellor;

iii. Rhoi anerchiad blynyddol i'r Llys.

iv. Gweithredu fel rheolwr llinell ar y Llywydd/Is-ganghellor ar ran y Cyngor, ac ymdrin â materion sy'n ymwneud ag adnoddau dynol parthed yr unigolyn hwnnw; ac

v. Ymgymryd â gweithgareddau ar ran y brifysgol a mynd i gyfarfodydd Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion a chyrff eraill o'r fath.

4. Ymddiswyddo a diswyddo

i. Gall Cadeirydd y Cyngor ymddiswyddo trwy roi rhybudd ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Brifysgol.

ii. Pan fydd ymddiswyddiad o'r fath yn digwydd, gall yr unigolyn dan sylw barhau fel aelod annibynnol o'r Cyngor. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath ni fydd cyfnod newydd fel aelod yn dechrau.

iii. Os yw'r mwyafrif o blith y Dirprwy Gangellorion a'r Llywydd/Is-ganghellor yn credu y dylid diswyddo Cadeirydd y Cyngor yn eu barn hwy am unrhyw un o'r rhesymau canlynol:

a. Methiant sylweddol i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn ystod y deuddeng mis blaenorol; neu
b. Methiant ac esgeulustod sylweddol i gyflawni dyletswyddau'r swydd; neu
c. Ymddwyn mewn modd sy'n amhriodol i Gadeirydd y Cyngor.
d. Unrhyw reswm da arall a ddiffinnir yn Ordinhad 1, paragraff 1.4.

Ar ôl rhoi cyfle i'r unigolyn dan sylw gyflwyno ei achos, rhaid sefydlu panel sy'n cynnwys tri aelod annibynnol o'r Cyngor, dan gadeiryddiaeth Dirprwy Ganghellor, ac wedi ei hwyluso gan Ysgrifennydd y Brifysgol, i ystyried yr achos a gwneud argymhelliad i'r Cyngor ynghylch a ddylid cadarnhau neu wrthod y diswyddiad. Caiff y Cadeirydd ei ddiswyddo os bydd mwyafrif o holl aelodau'r Cyngor yn cytuno â phenderfyniad i wneud hynny.